



Arweiniad Cyffredinol



Aseiad Risg Enghreifftiol ar gyfer Rheoli Traffig



Cynllun Rheoli Traffig Enghreifftiol

Rheoli Diogelwch Traffig ar Safleoedd Ysgol

Dogfen 2 o 3 - Aseiad Risg
Enghreifftiol ar gyfer Rheoli Traffig

Atodlen Gweithgarwch		Ffurflen RA/01		
Gwasanaeth: Addysg		Aseswr/Aseswyr:		
Isadran: Materion Ysgol Gyfan		Dyddiad:		
Cyfeirnod yr Aseiad Risg:	Rhestr o Weithgareddau/Peryglon	Oes peryglon sy'n hysbys eisoes?		
		Oes	Ddim yn siwr	Nac oes
A	Rheoli Traffig	✓		
<p>Mae'r aseiad risg enghreifftiol yma ar gyfer rheoli traffig wedi cael ei baratoi drwy ddefnyddio dogfen asesu gymeradwy'r Cyngor. Dim ond ffurflenni RA01 i RA04 sydd wedi cael eu defnyddio gan na chafodd ffurflen RA05 ei hystyried yn addas ar gyfer y math yma o aseiad.</p> <p>Yn dilyn yr aseiad risg, mae Carfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor yn argymhell y dylai rheolwyr yr ysgol baratoi Cynllun Rheoli Traffig sy'n amlinellu'r trefniadau rheoli traffig ar y safle.</p> <p>Mae Dogfen 1 o 3 o 'Reoli Diogelwch Traffig ar Safleoedd Ysgol' yn rhoi cyfarwyddyd cyffredinol, ac mae Dogfen 3 o 3 yn rhoi enghraifft o Gynllun Rheoli Traffig.</p> <p>Mae Dogfennau 1, 2 a 3, yn ogystal â ffurflenni gwag ar gyfer asesu risg, ar gael ar Ffynhonnell RhCT / RCT Source neu drwy gysylltu â Charfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor ar 01443 425531.</p>				

Nodi Peryglon				Ffurflen RA/02		
Cyfeirnod AR:		Gweithgaredd: Rheoli Traffig		Dyddiad:		
Rhif yr eitem	Peryglon sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd	Tebygolrwydd:		Difrifoldeb y niwed		
		Tebygol	Ddim yn debygol	U	C	I
A1	Cafodd rhieni eu gweld yn symud eu ceir tuag yn ôl ac yn gollwng disgyblion ar y ffordd y tu allan i'r brif dderbynfa cyn i'r ysgol ddechrau.	✓		✓		
A2	Wrth i blant gael eu gollwng yn y bore, cafodd nifer o fysiau cludo disgyblion eu gweld yn mynd trwy'r gatiâu wrth fynedfa'r gogledd ar gyflymder o fwy na 15 MYA.	✓		✓		
A3	Cerbydau sbwriel ac ailgylchu yn dod i gysylltiad â cherddwyr wrth gasglu gwastraff yn enwedig wrth symud tuag yn ôl.	✓		✓		
A4	Disgyblion yn dod i gysylltiad â cherbydau cludo disgyblion yn ystod y cyfnod prysur ar ddiwedd y diwrnod ysgol yn yr ardal parcio bysiau.	✓		✓		
A5	Diffyg croesfannau a llwybrau troed i gerddwyr - cerddwyr a cherbydau yn defnyddio'r un llwybrau. Cerddwyr yn cerdded yn agos at draffig sy'n symud.	✓		✓		
A6	Rhieni yn gyrru ar dir yr ysgol yn barod i gasglu'u plant ar ddiwedd y diwrnod ysgol - yn parcio'n amhriodol ac yn gyrru allan ar gyflymder.	✓		✓		
A7	Cerbydau contractwyr yn dod i gysylltiad â cherddwyr.	✓		✓		

Allwedd i'r ffactor risg	Ffactor Risg
Yn debygol o ddigwydd x Gradd uchel o niwed	U
Yn annhebygol o ddigwydd x Gradd uchel o niwed	C
Yn debygol o ddigwydd x Gradd ganolig o niwed	C
Yn annhebygol o ddigwydd x Gradd ganolig o niwed	C
Yn debygol o ddigwydd x Gradd isel o niwed	I
Yn annhebygol o ddigwydd x Gradd isel o niwed (dibwys)	I

Cyfeirnod AR:	Asesu Risg Gweithgareddau		Ffurflen RA/03
Dyddiad Asesu		Gweithgaredd sy'n cael ei asesu: Rheoli Traffig	Aseswyr:
Dyddiad Adolygu			

Rhif yr eitem	Prif Beryglon (Pethau sydd â'r potensial i achosi niwed)	Risg [U,C,I]	Rheswm (Eglurwch y rhesymau pam rydych chi wedi rhoi U, C neu I yn y golofn flaenorol. Dylech chi gynnwys y person(au) sydd mewn perygl a difrifoldeb yr anafiadau posibl)	Mesurau Rheoli Presennol (Beth rydych chi'n ei wneud eisoes i reoli'r perygl a'r risg? Rhaid i'r mesurau rheoli yma fod yn eu lle a rhaid eu bod nhw'n gweithio'n effeithiol)	Risg Weddilliol [U,C,I]	Oes angen cymryd camau pellach?	
						Oes	Nac oes
A1	Cafodd rhieni eu gweld yn symud eu ceir tuag yn ôl ac yn gollwng disgyblion ar y ffordd y tu allan i'r brif dderbynfa cyn i'r ysgol ddechrau.	U	Does dim man gollwng dynodedig ar y ffordd y tu allan i'r dderbynfa. Felly mae disgyblion yn cael eu gollwng ar y ffordd sy'n agos at gerbydau eraill yn yr ardal. Gallai hyn arwain at wrthdrawiadau rhwng cerbydau ac at gerddwyr yn cael eu bwrw gan gerbydau gan arwain at dorasgwrn, cleisiau neu hyd yn oed farwolaeth pe bydden nhw'n cael eu bwrw drosodd.	<ul style="list-style-type: none"> Mae un aelod o staff yn goruchwyllo'r ardal yma cyn i'r ysgol ddechrau rhwng 08:00 ac 08:20. Mae'r goruchwyliwr yn gwisgo siaced lachar. 	U	✓	
A2	Wrth i blant gael eu gollwng yn y bore, cafodd nifer o fysiau cludo disgyblion eu gweld yn mynd trwy'r gatiau wrth fynedfa'r gogledd ar gyflymder o fwy na 15 MYA.	U	Ffactor arwyddocaol sy'n gysylltiedig â llawer o ddamweiniau sy'n ymwneud â cherbydau yw eu cyflymder. Gallai cyflymder y bysiau sy'n mynd ar dir yr ysgol arwain at ddamweiniau rhwng cerbydau a fyddai'n arwain at anafiadau i yrwyr ac i deithwyr. Yn ogystal â hynny, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r gât i gerddwyr sydd wrth ymyl y gât i gerbydau ac felly, gallai cerddwyr fod yn agored i anafiadau megis torasgwrn, cleisiau neu hyd yn oed farwolaeth pe bydden nhw'n cael eu bwrw drosodd.	<ul style="list-style-type: none"> Mae un set o dwmpathau arafu yn uniongyrchol y tu mewn i gatiau'r ysgol. (Mae'r rhain angen eu trwsio - edrychwch ar y cynllun gweithredu) Mae arwyddion a marciau ffyrdd sy'n nodi terfyn cyflymder o 5 MYA wrth y fynedfa ac ar wyneb y ffordd, ond mae'r rhain wedi dechrau diflannu'n rhannol. 	U	✓	

Rhif yr eitem	Prif Beryglon (Pethau sydd â'r potensial i achosi niwed)	Risg [U,C,I]	Rheswm (Eglurwch y rhesymau pam rydych chi wedi rhoi U, C neu I yn y golofn flaenorol. Dylech chi gynnwys y person(au) sydd mewn perygl a difrifoldeb yr anafiadau posibl)	Mesurau Rheoli Presennol (Beth rydych chi'n ei wneud eisoes i reoli'r perygl a'r risg? Rhaid i'r mesurau rheoli yma fod yn eu lle a rhaid eu bod nhw'n gweithio'n effeithiol)	Risg Weddilliol [U,C,I]	Oes angen cymryd camau pellach?	
						Oes	Nac oes
A3	Cerbydau sbwriel ac ailgylchu yn dod i gysylltiad â cherddwyr wrth gasglu gwastraff yn enwedig wrth symud tuag yn ôl.	U	Mae sbwriel a deunydd ailgylchu yn cael eu casglu o'r ardal gefn yn ymyl y gegin. Rhaid i gerbydau symud tuag yn ôl yn yr ardal yma oherwydd lleoliad y cynhwysydd storio metel mawr a'r biniau. Os oes cerddwyr yn yr un ardal, mae'n bosibl y gallen nhw ddod i gysylltiad â'r cerbyd sy'n symud. Gallai hyn arwain at anafiadau i gerddwyr megis torasgwrn, cleisiau neu hyd yn oed farwolaeth pe bydden nhw'n cael eu bwrw drosodd.	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r sbwriel a'r deunydd ailgylchu yn cael eu casglu am 7:30am bob bore Mawrth cyn i'r disgyblion gyrraedd. Mae'r gwasanaethau sbwriel ac ailgylchu yn defnyddio cynorthwyr (bancsmyn) pan fydd y cerbyd yn symud tuag yn ôl. Y gofalwyr yw'r unig staff ar y safle, a nhw sy'n agor yr ardal wastraff ychydig cyn i'r cerbyd gyrraedd. Yn ystod y casgliad, mae'r gofalwr yn sefyll mewn ardal ddiogel i ffwrdd o'r ardal wastraff ac mae'n gwisgo dillad llachar. Mae digon o olau yn dod o sbotlampau yn ystod y gaeaf. Mae'r gofalwr yn cloi'r ardal wastraff ar ôl i'r cerbyd adael. 	C	✓	
A4	Disgyblion yn dod i gysylltiad â cherbydau cludo disgyblion yn ystod y cyfnod prysur ar ddiwedd y diwrnod ysgol yn yr ardal parcio bysiau.	U	Mae 12 o gerbydau sy'n cludo disgyblion ac mae'r rhain ar y safle ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Os oes cerddwyr yn yr un ardal, mae'n bosibl y gallen nhw ddod i gysylltiad â'r cerbyd sy'n symud. Gallai hyn arwain at anafiadau i gerddwyr megis torasgwrn, cleisiau neu hyd yn oed farwolaeth pe bydden nhw'n cael eu bwrw drosodd.	<ul style="list-style-type: none"> Mae goruchwyliwr dynodedig wrth brif gât y fynedfa rhwng 14:45 a 15:30. Mae hyn yn sicrhau mai dim ond cerbydau sy'n cludo disgyblion sy'n mynd i mewn i'r ardal fysiau. Does dim hawl i gerbydau eraill ddefnyddio'r ardal yma. Mae'r ysgol yn gweithredu system unffordd ac felly does dim angen i fysiau symud tuag yn ôl. Mae digon o gilfachau parcio ar gyfer y bysiau i gyd. Mae'r rhain wedi'u rhifo ac mae'r wyneb tarmac mewn cyflwr da. Mae'r bysiau yn cael eu parcio yn yr ardal fysiau ymhell cyn i'r disgyblion ddod allan o'r ysgol. Mae'r gyrrwyr yn diffodd injans eu 	C	✓	

Rhif yr eitem	Prif Beryglon (Pethau sydd â'r potensial i achosi niwed)	Risg [U,C,I]	Rheswm (Eglurwch y rhesymau pam rydych chi wedi rhoi U, C neu I yn y golofn flaenorol. Dylech chi gynnwys y person(au) sydd mewn perygl a difrifoldeb yr anafiadau posibl)	Mesurau Rheoli Presennol (Beth rydych chi'n ei wneud eisoes i reoli'r perygl a'r risg? Rhaid i'r mesurau rheoli yma fod yn eu lle a rhaid eu bod nhw'n gweithio'n effeithiol)	Risg Weddilliol [U,C,I]	Oes angen cymryd camau pellach?	
						Oes	Nac oes
				<p>cerbydau i leihau sŵn a llygredd.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae pob gyrrwr yn aros yn ei gerbyd yn ystod y cyfnod yma. Mae bysiau'n aros yn eu hunfan drwy gydol y cyfnod casglu disgyblion a dydyn nhw ddim yn symud hyd nes i'r staff goruchwyllo ddweud ei bod hi'n ddiogel i wneud hynny. Mae 4 o oruchwylwyr yn yr ardal fysiau yn ystod y cyfnod yma. Maen nhw'n sefyll ar yr ynysoedd rhwng y cilfachau parcio, hynny yw, rhif 1, 5 a 9. Mae'r goruchwyllydd sy'n weddill yn sefyll wrth y groesfan sebra y tu allan i'r dderbynfa. 			
A5	Diffyg croesfannau a llwybrau troed i gerddwyr - cerddwyr a cherbydau yn defnyddio'r un llwybrau. Cerddwyr yn cerdded yn agos at draffig sy'n symud.	U	Gallai diffyg croesfannau a llwybrau i gerddwyr, a pheidio â gwahanu cerbydau a cherddwyr, arwain at gerddwyr yn cerdded mewn ardaloedd i gerbydau. Gallai hyn arwain at anafiadau i gerddwyr megis torasgwrn, cleisiau neu hyd yn oed farwolaeth pe bydden nhw'n cael eu bwrw drosodd.	<ul style="list-style-type: none"> Mae croesfannau i gerddwyr o flaen y blociau gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg. Mae llwybrau troed o gwmpas yr ysgol er bod angen trwsio rhai ohonyn nhw gan fod ceudyllau ynddyn nhw. Mae rhwystr gwahanu metel ar hyd y brif fynedfa, o gât y cerbydau i'r bloc gwyddoniaeth. 	C	✓	
A6	Rhieni yn gyrru ar dir yr ysgol yn barod i gasglu'u plant ar ddiwedd y diwrnod ysgol - yn parcio'n amhriodol ac yn gyrru allan ar gyflymder.	U	Mae nifer o rieni'n cyrraedd yn gynnar ac yn parcio ar y dreif sy'n arwain at yr ysgol, ac mae rhai yn parcio'n driphlith draphlith sy'n achosi tagfeydd. Pan fydd disgyblion yn cael eu rhyddhau am y diwrnod, maen nhw'n gwasgaru ar y ffyrdd er mwyn mynd at eu rhieni. Mae cerbydau rhai o'r rhieni yn symud ac mae rhai yn cael eu gyrru ar gyflymder. Gallai hyn arwain at wrthdrawiadau rhwng cerbydau ac at	<ul style="list-style-type: none"> Ar hyn o bryd mae goruchwylwyr yn monitro parcio anghyfreithlon / driphlith draphlith ac yn rhoi gwybod i yrwyr am y manau parcio priodol. Mae rhai bolardiau yn eu lle y tu allan i'r bloc dylunio a thechnoleg sy'n atal parcio anghyfreithlon / driphlith draphlith yn yr ardal yma. 	C	✓	

Rhif yr eitem	Prif Beryglon (Pethau sydd â'r potensial i achosi niwed)	Risg [U,C,I]	Rheswm (Eglurwch y rhesymau pam rydych chi wedi rhoi U, C neu I yn y golofn flaenorol. Dylech chi gynnwys y person(au) sydd mewn perygl a difrifoldeb yr anafiadau posibl)	Mesurau Rheoli Presennol (Beth rydych chi'n ei wneud eisoes i reoli'r perygl a'r risg? Rhaid i'r mesurau rheoli yma fod yn eu lle a rhaid eu bod nhw'n gweithio'n effeithiol)	Risg Weddilliol [U,C,I]	Oes angen cymryd camau pellach?	
						Oes	Nac oes
			anafiadau i gerddwyr megis torasgwrn, cleisiau neu hyd yn oed farwolaeth pe bydden nhw'n cael eu bwrw drosodd.				
A7	Cerbydau contractwyr yn dod i gysylltiad â cherddwyr.	U	Cafodd nifer o gerbydau contractwyr eu gweld yn cael eu parcio'n amhriodol ac roedd hynny'n achosi tagfeydd yn ystod y cyfnodau prysur. Yn ogystal â hynny, cafodd dau gerbyd nwyddau contractiwr eu gweld yn cael eu gyrru ar safle'r ysgol yn ystod y cyfnod casglu disgyblion. Gallai hyn arwain at wrthdrawiadau rhwng cerbydau ac at anafiadau i gerddwyr megis torasgwrn, cleisiau neu hyd yn oed farwolaeth pe bydden nhw'n cael eu bwrw drosodd.	<ul style="list-style-type: none"> Mae cyfarfodydd dyddiol yn cael eu cynnal gyda chynrychiolwyr contractwyr. Mae cilfachau parcio a dosbarthu nwyddau dynodedig yn cael eu darparu yn ymyl yr ardal i gontractwyr. Mae arwyddion sy'n dangos y llwybr i gerbydau dosbarthu nwyddau wedi'u gosod ym mhob rhan o'r safle. Mae'r holl staff yn cael eu hysbysu o'r gwaith adeiladu a'r ardaloedd nad oes hawl eu defnyddio hyd nes i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau. 	C	✓	

Cyfeirnod AR: A	Asesiad Risg ar gyfer Rheoli Traffig - Cynllun Gweithredu		Ffurflen RA/04
Person Cyfrifol:		Gweithgaredd: Rheoli Traffig	Dyddiad:
Swydd:			

Rhif yr eitem:	Prif Beryglon	Camau gofynnol	Cymryd camau erbyn	Person sydd i gymryd y camau	Dyddiad cwblhau
A1	Cafodd rhieni eu gweld yn symud eu ceir tuag yn ôl ac yn gollwng disgyblion ar y ffordd y tu allan i'r brif dderbynfa cyn i'r ysgol ddechrau.	<ol style="list-style-type: none"> Ysgrifennu at rieni yn eu hysbysu y dylen nhw ollwng a chasglu eu plant yn y manau dynodedig y tu allan i'r ffreutur. Goruchwylwyr i atgoffa'r rhieni i ddefnyddio'r cilfachau parcio dynodedig yn unig. Cysylltu â'r Garfan Cynnal a Chadw Eiddo Corfforaethol a gofyn i syrfêwr alw i roi cyngor ar y posibilrwydd o gyflwyno cylchfan yn yr ardal ger y dderbynfa. Bydd hyn yn dileu'r angen i gerbydau symud tuag yn ôl. Yn ogystal â hynny, ceisio cyngor ar gyflwyno cilfachau 'gollwng' a 'chodi' ychwanegol ar y ffordd sy'n arwain i lawr o'r dderbynfa. 	<p>Erbyn diwedd yr wythnos</p> <p>Ar unwaith</p> <p>Erbyn diwedd yr wythnos</p>	<p>Pennaeth Ysgol</p> <p>Goruchwylwyr</p> <p>Pennaeth Ysgol</p>	
A2	Wrth i blant gael eu gollwng yn y bore, cafodd nifer o fysiau cludo disgyblion eu gweld yn mynd trwy'r gatau wrth fynedfa'r gogledd ar gyflymder o fwy na 15 MYA.	<ol style="list-style-type: none"> Goruchwylwr i drafod y mater yma gyda gyrwyr y bysiau ar yr adeg y sylwodd arno. Pennaeth Ysgol i ysgrifennu at yr Uned Drafnidiaeth Integredig a rhoi gwybod am y mater yma. Cysylltu â'r Garfan Cynnal a Chadw Eiddo Corfforaethol a gofyn i syrfêwr alw i roi cyngor ar y posibilrwydd o drwsio'r twmpath arafu presennol wrth y fynedfa, a chyflwyno un newydd ar y ffordd y tu allan i'r bloc gwyddoniaeth. Yn ogystal â hynny, ceisio cyngor o ran gwella'r marciau ffordd presennol a chyflwyno arwyddion 	<p>Ar unwaith</p> <p>Cyn pen wythnos</p> <p>Erbyn diwedd yr wythnos</p>	<p>Goruchwylwr</p> <p>Pennaeth Ysgol</p> <p>Pennaeth Ysgol</p>	

Rhif yr eitem:	Prif Beryglon	Camau gofynnol	Cymryd camau erbyn	Person sydd i gymryd y camau	Dyddiad cwblhau
		ychwanegol.			
A3	Cerbydau sbwriel ac ailgylchu yn dod i gysylltiad â cherddwyr wrth gasglu gwastraff yn enwedig wrth symud tuag yn ôl.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Gyda'r nod o ddileu'r angen am symud cerbyd tuag yn ôl, dylai'r gofalwr ystyried lleoliadau amgen i gadw'r cynhwysydd storio metel mawr ar safle'r ysgol. Bydd hyn yn rhoi lle ychwanegol yn yr ardal, a fyddai dim rhaid i'r cerbydau casglu sbwriel symud tuag yn ôl. 2. Os yw 1 uchod yn llwyddiannus, dylai trefniadau gael eu gwneud i adleoli'r cynhwysydd storio. 	<p>Cyn pen 2 fis</p> <p>Lle bo angen ond cyn pen 4 mis</p>	<p>Gofalwr</p> <p>Gofalwr</p>	
A4	Disgyblion yn dod i gysylltiad â cherbydau cludo disgyblion yn ystod y cyfnod prysur ar ddiwedd y diwrnod ysgol yn yr ardal parcio bysiau.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Er bod mesurau rheoli amrywiol wedi'u cyflwyno, dydy'r rhain ddim wedi'u ffurfioli. Rydyn ni'n argymhell felly y dylai rheolwyr yr ysgol baratoi Cynllun Rheoli Traffig sy'n cofnodi'r holl drefniadau rheoli traffig yn yr ysgol. Gall y ddogfen yma wedyn gael ei defnyddio i roi gwybod i'r holl bobl berthnasol o'r trefniadau rheoli traffig yn yr ysgol. 	Cyn pen 3 mis	Pennaeth Ysgol	
A5	Diffyg croesfannau a llwybrau troed i gerddwyr - cerddwyr a cherbydau yn defnyddio'r un llwybrau. Cerddwyr yn cerdded yn agos at draffig sy'n symud.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Cysylltu â'r Garfan Cynnal a Chadw Eiddo Corfforaethol a gofyn i syrfëwr alw i roi cyngor ar y posibilrwydd o drwsio'r llwybrau troed presennol a chyflwyno rhwystr cerddwyr rhwng yr ardal wyddoniaeth a'r brif dderbynfa. Yn ogystal â hynny, ceisio cyngor ynglŷn â chyflwyno croesfan i gerddwyr rhwng y brif dderbynfa a'r ynys ger y cilfachau parcio i fysiau. 	Erbyn diwedd yr wythnos	Pennaeth Ysgol	
A6	Rhieni yn gyrru ar dir yr ysgol yn barod i gasglu'u plant ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Weithiau mae rhieni'n parcio'n amhriodol ac yn gyrru allan o fynedfa'r ysgol ar gyflymder.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Darparu goruchwylwyr ychwanegol yn ystod y cyfnodau yma i gyfeirio a monitro parcio. 2. Cyflwyno gweithdrefn lle nad oes hawl i gerbydau symud yn ystod y cyfnodau casglu plant. 	<p>Erbyn diwedd yr wythnos</p> <p>Erbyn diwedd yr wythnos</p> <p>Cyn pen 4 mis</p>	<p>Pennaeth Ysgol</p> <p>Pennaeth Ysgol</p>	

Rhif yr eitem:	Prif Beryglon	Camau gofynnol	Cymryd camau erbyn	Person sydd i gymryd y camau	Dyddiad cwblhau
		<ol style="list-style-type: none"> 3. Ystyried cyflwyno rhwystrau/bolardiau yn yr ardaloedd lle mae parcio anghyfreithlon / driplith draphlith yn digwydd. 4. Ystyried gwahardd rhieni sy'n troseddu rhag cael mynediad i dir yr ysgol yn eu cerbydau yn ystod y cyfnodau gollwng a chasglu plant. 	Cyn pen 4 mis	<p>Pennaeth Ysgol</p> <p>Pennaeth Ysgol</p>	
A7	Cerbydau contractwyr yn dod i gysylltiad â cherddwyr.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Rhoi gwybod i gontractwyr (neu eu hatgoffa) bod yr ysgol yn gweithredu system lle nad oes hawl i gerbydau symud yn ystod y cyfnodau gollwng a chasglu plant. 2. Rhaid i oruchwylwyr fonitro cydymffurfiaeth â'r trefniadau ar gyfer y traffig ar y safle. 	<p>Erbyn diwedd yr wythnos</p> <p>Yn parhau</p>	<p>Pennaeth Ysgol</p> <p>Goruchwylwyr</p>	

Enghttraiff